

Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2020–21

Mae'r cynllun grant hwn ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n astudio rhaglen achrededig addysg gychwynnol i athrawon (AGA) rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021 sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) drwy'r cyfrwng Cymraeg neu hyfforddiant i ddysgu Cymraeg fel pwnc.

Canllawiau'r
cynllun

Darllenwch ganllawiau'r cynllun yn gyntaf. **Llenwch bob rhan o bob ffurflen yn llawn.** Dim ond llofnodion 'gwlyb' sy'n dderbyniol – ni dderbynnir llofnodion wedi'u teipio. Os na fydd y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir, mae'n bosibl y bydd eich taliad yn hwyr neu mae'n bosibl na chewch daliad o gwbl. Dim ond copïau o'ch Tystysgrif SAC neu'ch Tystysgrif Sefydlu sydd eu hangen anom – na allwn dychwelyd y rhai gwreiddiol. Dychwelwch y ffurflenni ar ffurf PDF i ITEIncentives@llyw.cymru

FFURFLEN
PL8

Erbyn 31 Mawrth 2021:
Anfonwch eich Ffurflen PL8.

Mawrth
31

FFURFLEN
HAWLIO
SAC

Ar ôl 1 Mehefin 2021:
Gofynnwch i'ch darparrydd
AGA llofnodi eich Ffurflen
Hawlio SAC.

Mehefin
1+

**O fewn blwyddyn o
dderbyn eich Tystysgrif SAC:**
Anfonwch gopi o'ch Tystysgrif
SAC a'ch Ffurflen Hawlio SAC
wedi'i llenwi'n llawn.

**Ar ôl derbyn Ffurflen
Hawlio SAC dilys a
Thystysgrif SAC:**
O fewn 10 diwrnod byddwn yn
gwneud taliad i'ch cyfrif banc.

FFURFLEN
HAWLIO
SEFYDLU

**O fewn tair blynedd i'ch
dyfarniad SAC:**
Rhaid i chi gwblhau'ch cyfnod
sefydlu.

Rhaid i'ch pennaeth, eich
dirprwy bennaeth neu'ch
pennaeth adran llofnodi'r
datganiad ar eich Ffurflen
Hawlio Sefydlu.

**O fewn blwyddyn
o dderbyn eich
Tystysgrif Sefydlu:**
Bydd eich lleoliad/ysgol
uwchradd yn cyflwyno'r
ffurflen hawlio wedi'i llenwi
ar eich rhan ynghyd â chopi
o'ch Tystysgrif Sefydlu.